Cyngor Cymuned Llanfihangel y Pennant a gynhaliwyd yng Nghanolfan Gymunedol Abergynolwyn, Nos Lun 14ddeg Medi 2015 am 7.00 o'r gloch,.

Presennol: Gadeirydd Robert Jones, Is Cadeirydd Wendy Whitby, H.E. Thompson, Gareth Evans, Eleri Puw, , Cynghorwr Gwynedd Beth Lawton a'r clerc Eileen Jones.
Ymddiheuriad: Dylan Davies (Buwch yn lloio)
Datgan Diddordeb: Cyng Eleri ar Cais Cynllunio rhif 17
Croeshawyd pawb gan y Cadeirydd
Derbyniwyd cofnodion Gorffennaf a'u llofnodi gan y Cadeirydd

1. Cae Chwarae: Adroddodd Cyng.Thompson bod Barry Shellis yn dod i wneud y gwaith. Adroddiad ROSPA yn cofnodi bod y gwaith paint eisiau sylw. Pasiwyd i wneud ymholiadau. Pasiwyd i dalu Play Safety ac hefyd Sean's Lawns.
2. Mynwent : Pasiwyd i dalu Sean's Lawns a holi iddo dacluso y darn newydd.
3. Llwybrau: Dim yw adrodd.
4. Ciosg: Minffordd – gweithio ond oedd angen arwydd i ddweud am aros am 4 eiliad cyn y byddai yn cysylltu.
5. We: Dechrau rhoi cofnodion o'r mis yma ymlaen.
6. Tombola: Eleni codwyd £97.00 – diolch i bawb am gefnogi
7. Nat. West: Trafodwyd y sefyllfa gan fod yr adeilad yn cau yn Nhywyn – pasiwyd i ddefnyddio y Swyddfa Bost. Nodwyd y byddai ein nwyddau cadw yn y Banc ym Machynlleth.
8. Arwydd electroneg: Er ein cyfarfod ym Mis Mawrth ni chafwyd ymateb.
9. Adroddiad Cyng Gwynedd Beth Lawton: Danghoswyd pryder bod yr ysgol yn orlawn, dau dosbarth gyda 31 o blant.
10. Royal Airforce: Pasiwyd i'r Is Gadeirydd W Whitby fynd i'r oedfa.
11. Major & Evans: Pasiwyd i dalu gwaith gweinyddu treth gwladol ar ran y Clerc.
12. Cais Cynllunio: Tyn y Cornel Isaf – trosi ysgubor i Lety gwyliau – trafodwyd a pasiwyd i gefnogi. (2) Rhiwogof – adeiladu estyniad – trafodwyd tra aeth Cyng Puw allan – pasiwyd i gefnogi – teulu lleol a Chymru ifanc.
13. Codwyd y canlynol –(1) Ffordd Staer Dywyll – Bagiau bin gyda tiniau paint ynddynt, (2) Nid oedd Maesymeillion wedi ei dorri o fewn y 30mya (3) Nodwyd wrth droi fewn i cefn Maesymeillion bod y fynedfa eisiau sylw ac hefyd bod "manhole" yn sagio yno. (4) Rhosgadlas, Talyllyn – sietyn gyda gordyfiant yn taro cerbydau. (5) Ffordd Llan – Tynyfach – diriwio ar ol gwaith Hydro – cobbles yn dangos wrth Ty'n Llan – oes archwiliad wedi ei wneud.
14. Archwiliad allanol wedi ei cwbwlhau , pasiwyd i dalu
15. Taliadau:

Play Safety	cae/ archwiliad	£81.6	siec 843
Sean's Lawns	cae/mynwent/dau fis	724.00	844
Hacker Young	archwiliad	210.00	845
Major & Evans	gweinyddu	90.00	846

YMDDIRIEDOLAETH MARI JONES:
1. Dim yw adrodd.

Cyfarfod Nesaf 9fed Tachwedd 2015 am 7 o'r gloch